| **nrCofnodion cyfarfod 11eg o Hydref 2023 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | |
|---|---|
| **PRESENNOL** | |
| Llinos Pritchard (Cadeirydd) | Iola Owen |
| Iwan Harding | Louise Price |
| Emlyn Baylis | Nia Jones |
| Kevin Jones | Kim Jones |
| Trystan Thomas | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Llinos Pritchard gan groesawu'r aelodau i gyfarfod mis Hydref. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Rhys ap Gwilym, Helen Sharp a'r Cynghorydd Gwilym Evans.<br>Eglurwyd bod gweinyddiaeth y Cyngor dros dro hyd nes penodi Clerc newydd yn cael ei wneud yn wirfoddol gan y Cynghorydd Heather Jones. | |
| 1.1 | Ni chafwyd presenoldeb gan y cyhoedd ond derbyniwyd llythyr ynglŷn ag ymddygiadau wrth gymdeithasol yn Llanberis. Penderfynwyd trafod y mater hwn ac eitem 1.4 ar y cyd.<br>Trafodwyd rhai o'r digwyddiadau hysbys o ymddygiadau wrth gymdeithasol a thrafodwyd y mater o sut i'w ddatrys.<br>Yn codi o'r llythyr roedd syniad o gynnal cyfarfod cyhoeddus - penderfynwyd y byddai'r cyngor yn cefnogi y cais. Y Clerc dros dro i wneud trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfod ynghyd a chael presenoldeb yr Heddlu dechrau mis Tachwedd 2023.<br>Trafodwyd y mater o gyflwyno teledu cylch cyfyng (CCTV) mewn mannau priodol o fewn y pentref. Un o'r safleoedd o dan sylw yw toiledau Cyngor Gwynedd ger y Llyn. Dywedodd y Clerc dros dro ei bod wedi gwneud ymholiadau a Chyngor Gwynedd ar y mater a byddent yn ymateb maes o law. Mae gwybodaeth am sustem o'r math hyn i'w gael gan Information Commissioner's Office. Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus a gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd efallai bydd angen pwyllgor i ymchwilio'r mater yn fanylach. | **CLERC** |
| 1.2 | Partneriaethau natur Lleol – gwybodaeth yn unig. Dim gwybodaeth gan y Cyngor am unrhyw grŵp perthnasol. | |
| 1.3 | Materion Technegol Gwybodaeth - ystyriwyd y mater a gyflwynwyd gan y cyn clerc am gyfeiriad e-bost sbesiffig ar gyfer y Cyngor a'r aelodau. Cyfeiriodd y Clerc Dros Dro nad oedd hyn yn orfodol a bod hawl gan aelodau i barhau i ddefnyddio eu cyfeiriadau personol. Penderfynwyd byddai'r Cyngor prynu cyfeiriad i Glerc y Cyngor am ffi flynyddol o £15. | **CLERC** |
| 1.4 | Gweler eitem 7.0 | |
| 1.5 | Sul y Cofio - fel arfer bydd aelodau o'r Cyngor yn trefnu'r digwyddiad ger y Gof Golofn. Cytunwyd byddai'r Cyngor yn prynu torch fel yr arfer. | |
| 1.6 | Diogelwch Ffordd Glanrafon - cafwyd eglurhad bod sefyllfa bryderus yn bodoli ger y bont droed ym mhen Stad Glanrafon pam mae cerbydau yno yn troi ynghyd a disgyblion yn cerdded o'r ysgol. Cafwyd ymweliad safle yn ddiweddar rwng Swyddog Trafnidiaeth Ysgol, cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned a'r Heddlu. Phenderfynwyd nid oes datrysiad amlwg i'r sefyllfa ond byddai'r Swyddog Trafnidiaeth Ysgol yn ymgynghori a phennaeth yr ysgol i weld beth allai wneud a'r ymarferiad o ollwng a chodi plant Nant Peris a'r Cyngor Cymuned i wneud trefniadau i godi arwydd Llwybr Diogel i'r Ysgol - Dim Cerbydau os bydd adran Strwythurau yn cytuno. | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| 1.7 | Dwyieithrwydd - cafwyd adroddiad lafar bod llawer o fusnesau ar y Stryd Fawr yn defnyddio Saesneg yn unig. Trafodwyd y mater hwn a phenderfynwyd byddai'r Cyngor yn ysgrifennu iddynt i annog hwy i ddefnyddio'r ddwy iaith sef Saesneg a Chymraeg. Y Clerc dros dro i lythyru'r busnesau a chynnig cymorth gyda'r cyfieithu os ydynt yn cael anawsterau i sicrhau dwyieithrwydd. | **CLERC** |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Eitem 7.1 gan y Cynghorydd Llinos Pritchard. | |
| **3.0** | **ADRODDIAD AR FATERION SIROL** | |
| 3.1 | Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig ar faterion sirol gan y Cynghorydd Kim Jones, gweler yr adroddiad yn atodiad 1. | |
| **4.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| 4.1 | Cadarnhawyd gwariant mis Medi. Nid oedd adroddiad ariannol i law oherwydd y newidiadau i weinyddiaeth y Cyngor ond rhoddwyd gwybodaeth bod £58,712.74 yng nghyfrif banc cyffredinol a £67.23 yn y cyfrif cadw. | |
| 4.2 | Cyflwynwyd amcan bris am y pecyn SCRIBE. Byddai pris sefydlu yn £249.00 (un taliad) a £408 tanysgrifiad blynyddol. Cynigwyd ac ategwyd y cynnig i brynu'r pecyn. Y Cyngor yn gytûn. | **CLERC** |
| 4.3 | Cyflwynwyd argymhellion Pwyllgor Cyllid ar gyfer penodi Clerc Newydd:<br>Graddfa Cyflog LC2 22-27 £15.30 yr awr – yn ddibynnol a phrofiad<br>32 Awr y mis<br>Treuliau £400 y flwyddyn<br>Cyflwynwyd hefyd manylion gwariant i gwblhau cyfnod cyflogaeth y cyn clerc. | |
| 4.4 | Yn dilyn cyflwyno adroddiad y cyn clerc ar gyrn pres y Cyngor Cymuned cadarnhawyd cynnwys yr adroddiad yn ffurfiol gan y Cyngor, hefyd cadarnhawyd yr amcan bris a dderbyniwyd i drwsio a phrynu nifer o eitemau ar gyfer y cyrn. Derbyniwyd anfoneb ar gyfer yr eitem newydd oedd angen eu prynu. Bydd anfoneb am y trwsio yn cael ei anfon ar ôl i'r trwsio cael ei gwblhau. Mae rhai o'r cyrn pres ddim yn briodol ar gyfer plant oed cynradd ac nid oeddynt ychwaith mewn cyflwr da felly bydd y rhain yn cael eu gwerthu. | **CLERC** |
| **5.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| 5.1 | Cadarnhawyd cofnodion mis Medi 2023 wedi ychydig o fan newidiadau. | |
| 5.2 | Rheolau Sefydlog - penderfynwyd llithro'r eitem yma i fis Tachwedd. | |
| 5.3 | Cais am arian Grid Cenedlaethol am Oleuadau Nadolig – penderfynwyd nad oedd hyn ei angen y tro hyn. | |
| 5.4 | Cais am arwydd ger mynedfa i'r castell - trafodwyd y mater a phenderfynwyd efallai gwell fyddai gwneud cais i Gyngor Gwynedd i osod marciau lliniogi gan fod pobl yn anwybyddu gorchmynion gwahardd parcio. | **CLERC** |
| 5.5 | Mae cais wedi ei wneud i Gyngor Gwynedd i leoli bin yn y Cae Chwarae ger y llyn ond un heb fathodyn yn dangos symbol ci, mae hyn wedi ei archebu ond nid oedd y Swyddog yn gallu rhoi gwybodaeth am y gost ond cost ei wasanaethu'n wythnosol fydd oddeutu £5. | |
| **6.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| 6.1 | Cafwyd adroddiad bod gwaith yn angenrheidiol ar y palmant ger y tai a adnabyddir fel y llysoedd (Tai Doctor). Gobeithir bydd y gwaith yn cychwyn o fewn 6 wythnos. Golygai'r gwaith bydd angen rheoli traffig a symud unrhyw barcio sy'n bodoli gyferbyn a'r tai. | |
| **7.0** | **Y FYNWENT**- Cynghorydd Trystan Thomas yn cadeirio'r adran yma. | |

| | | |
|---|---|---|
| 7.1 | Yn dilyn adroddiad y cyn clerc ac ymweliad safle gan Saer maen cofebion cymwys cafwyd gwybodaeth nad fyddai angen asesu'r cofebion am 5 mlynedd. Gallai gwaith i wneud yn iawn y cofebion sydd wedi eu rhoi lawr gael eu cwblhau un ai drwy eu gosod gyda hoelbrennau haearn er mwyn eu hangori fel yr arferiad cyfredol am oddeutu £900 neu eu gosod drwy ddefnyddio bonding am £500.<br>Cynigwyd ac ategwyd bod y gwaith yn cael ei wneud drwy ddefnyddio'r ymarferiad cyfredol. Roedd y Cyngor yn gytûn. | **CLERC** |
| 7.2 | Asesiad Risg a pholisi Rheoli'r Fynwent - bydd angen i Bwyllgor y Fynwent sicrhau argymhellion ar gyfer mabwysiadu'r ddwy ddogfen erbyn y cyfarfod nesaf. | **CADEIRYDD PWYLLGOR Y FYNWENT** |
| 7.3 | Ymestyn y fynwent – deallir nad yw'r mater hwn wedi cael ei ddilyn i fyny gyda gohebiaeth i berchennog tir cyfagos. | **CLERC** |
| **8.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Dim i'w adrodd | |
| **9.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL Y NADOLIG** | |
| 9.1 | Coed Nadolig - mae'r coed ar gyfer Llanberis a Nant Peris wedi eu harchebu ynghyd a'u cludiant a'u codi yn eu lle. Bydd trefniant arall ar gyfer rhoi goleuadau arnynt. | **CLERC** |
| 9.2 | Goleuadau Nadolig - mae'r rhain wedi eu harchebu a bydd angen anfon siec ymlaen er mwyn eu derbyn. Credir eu bod yn cael eu gosod gan Goleuadau Stryd Cyngor Gwynedd pan fyddant yn codi offer trydanol ar eu cyfer ar golofnau goleuadau stryd y pentref. | **CLERC** |
| 9.3 | Roedd £2000 wedi ei roi gyferbyn a Gweithgareddau Cymunedol y Nadolig yn y gyllideb. Penderfynwyd ymestyn y swm i £4000. Cytunwyd ar hyn gan y Cyngor. | **CLERC** |
| **10.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| 10.1 | Cafwyd adroddiad lafar gan gynrychiolwyr y Cyngor ar Lywodraethwyr Ysgol Dolbadarn. Diolchwyd iddynt am rannu'r wybodaeth. | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad :** |

**Atodiad 1**

**Adroddiad i'r Cyngor Cymuned 11/10/2023.**

• Ymgynghoriad Cyhoeddus y Gwasanaeth Tan wedi dod i ben ers Medi 30, cyfarfod yr Awdurdod Tan i ddilyn ym mis Hydref a canlyniad erbyn mis Rhagfyr o rhan cau y Gorsaf Dan neu beidio.

• Cyfarfod rhwng Ian Morgan (Adran Priffyrdd CG) minnau a Nia Jones – Roedd y cyfarfod yma i drafod cyflwr palmant o stad Coed y Glyn i lawr i Well Street yn dilyn nifer helaeth o gwynion gan drigolion. Esboniodd Mr Morgan bu'n rhaid cau y lon am gyfnod byr a llythyru'r tai cyfagos er mwyn gofyn iddynt beidio parcio ochr chwith i'r lon. Eglurodd mi fydd yn rhoid diweddariad i ni o fewn chwe wythnos. Hefyd trafodwyd yr angen am 'dropped curbs' yn y pentref gan fod dim digon ohonynt, dywedodd Mr Morgan fuasai'n trio cael ambell un tra bydd y gwaith palmant yn cael ei gwblhau. Nodwyd hefyd fod palmant ar dop allt Rheiffordd yr Wyddfa/dros y ffordd i Vic mewn cyflwr ofnadwy, mi roedd am fynd i weld y llwybr yma ar y ffordd adra a'i gynnwys yn y gwaith.

• Cais Cynllunio Tai Newydd ar safle'r hen lyfrgell ar 'hold' o achos fod angen ymweliad safle. (Dwi'n tybio geith hwn ei gymeradwyo yn fuan) Wedi gorfod datgan buddiant o achos bod fy rhieni yn byw yn Stryd Capel Coch.

• Cyfarfod gyda National Grid 06/10/2023: Phil Rose yn cadarnhau eu bod wedi bod yn ffonio 'Stakeholders' er mwyn hyrwyddo'r Community Grant sydd ar gael. Dywedodd eu bod yn hyrwyddo Marathon Eryri eleni o achos eu bod yn gorfod newid lleoliad y marquee i faes parcio Vic, maen't hefyd yn talu i lenwi'r potholes yn y maes parcio iddynt. Roedd hefyd yn son eu bod yn bwriadu rhoid 'arwyddion priosect' i fyny ar y Priffyrdd er mwyn gwneud pobl yn ymwybodol o'r gwaith. Maen't wedi gofyn wrth Gyfeillion Ysgol Dolbadarn am fwy o wybodaeth ar y cais ond yn cadarnhau fydd taliad iddynt yn yr wythnosau nesaf.

• Peter Simpson o CG yn nodi eu bod yn gwneud cais am arian grant drwy LleChi ar gyfer y gobaith o sefydlu biniau clyfar yn y pentref (fel yr un sydd yn Maes Derlwyn) gan eu bod yn dal saith gwaith mwy o sbwriel na'r binaiu cyffredin ac er mwyn osgoi biniau i or-lifo. Hyn yn holl ddibynol os gaiff y Cyngor yr arian grant.

• Yn dilyn cwyn am sbwriel yn 'leibi tunnel bends' mae Carwyn Williams wedi cadarnhau fod bwriad i dynnu rhai o'r bollards yn Y Glyn a'u newid am bolderi gan fod gymaint ohonynt wedi eu taro felly maen't am benodi contractwr i wneud y gwaith Glyn Rhonwy (y leibi) a'r Glyn yr un pryd. Does dim dyddiad ar gyfer y gwaith eto.

• Trefniadau y Ffair Nadolig yn brysur, Engie wedi cytuno i ariannu'r flyers er mwyn i ni eu dosbarthu i'r tai a'r Ganolfan wedi cytuno i ariannu anrhegion y plant ar gyfer Groto Sion Corn.

• Cyngor Llawn 28/09/2023 – Adroddiad Perfformaid Blynyddol a Hunasesiad wedi ei gymeradwyo a mabwysiadu ar gyfer y flwyddyn 22-23. Adroddiad blynyddol y pwyllgor llywodraethu ac archwilio 22-23 wedi ei dderbyn. Adolygiad Cyfansoddiad, mabwysiadu'r neiwidiadau i'r Cyfansoddiad. Rhybudd o gynnig gan y Cyng Gruff Williams Bod Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i gefnogi'r fferm deuluol Gymreig sy'n cyfrannu cymaint at economi Gwynedd, a hefyd yn fodd i gynnal hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol unigryw'r sir, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ail-ystyried eu penderfyniad i fynnu bod pob uned amaethyddol yn gorfod neilltuo 10% o'u tiroedd yn goedwigoedd.

• Wedi bod yn trafod agweddau gwrth-gymdeithasol gyda Nia y PCSO lleol yn aml iawn yun ystod y mis yn dilyn nifer o ddifrod mewn mannau gwahanol yn y pentref sy'n cynnwys y toiledau cyhoeddus a iard yr ysgol. Teimlai Nia fod angen cyd-weithio gyda CG er mwyn cael camerau CCTV yma er mwyn lleihau difrod.